Hoffi a chasau / *Likes and dislikes*

Thema - *Themes*

Mae'n well gyda fi/ Mae'n gas gyda fi - *I prefer / I hate*
Dw i'n lico /hoffi - *I like*

Patrymau laith - *Language patterns*

Hoffi - *To like*

Dyn ni'n defnyddio lico / hoffi (mwy ffurfiol) i ddweud beth dyn ni'n lico.
We use 'lico/ hoffi'(more formal) when saying what we like.

Dw i'n lico	*I like*
Rwyt ti'n lico	*You like*
Mae e / hi/ Ann yn lico	*He / She / Ann likes*
Dyn ni'n lico	*We like*
Dych chi'n lico	*You like*
Maen nhw'n lico	*They like*

Cwestiwn / *Question*

Wyt ti'n lico rhedeg? *Do you like running?* **Ydw / Nac ydw**
Beth wyt ti'n lico? *What do you like?*

Negyddol / *Negative*

Dw i ddim yn lico coffi *I don't like coffee*

Mae'n well gyda fi / *I prefer*
Mae'n gas gyda fi / *I hate*

Cofiwch y treiglad meddal / *Remember the soft mutation*

Mae'n well gyda fi **w**in coch	*I prefer red wine*
Mae'n gas gyda fi **g**wrw	*I hate beer*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*
Llenwch y grid.
Fill in the grid.

Enw	Diod	Bwyd
Steffan		
Marged		
James		
Sara		

Tasg fideo / *Video task*
Ateb y cwestiwn wrth roi tic (✓) neu groes (✗) yn y grid
Answer the question by putting a tick (✓) or a cross (✗) in the grid.

Pwy sy'n hoffi…?	Sian	Gaz
cwrw		
gwin		
sglodion		
bwyd Eidalaidd		
mynd i'r theatr		
mynd i'r sinema		
opera		
roc trwm		

Sgript Sain - *Audio Script*

Steffan: Reit – dw i'n mynd at y bar. Pwy sy eisiau diod? Marged, gwin?

Marged: Mae'n well gyda fi Deiet Coke, os gweli di'n dda?

Steffan: Sara, beth wyt ti eisiau?

Sara: Gwin, os gweli di'n dda, Steffan.

Steffan: Gwin gwyn mawr?

Sara: Mae'n well gyda fi win coch, os gweli di'n dda!

Steffan: Reit – un deiet Coke, un gwin coch, mawr. James ?

James: Peint o gwrw i fi, plís.

Marged: Mae'n well gyda ti beint o Guiness mae'n siwr, Steffan.

Steffan: Rwyt ti'n gwybod be dw i'n lico! Deiet coke, gwin coch mawr, peint o gwrw a Guinness i fi. Reit! Ble mae'r bar?

.....

Sara: Dw i eisiau bwyd. Ble mae'r fwydlen?

Marged: Mae'r fwydlen ar y bwrdd-du ar y wal.

Sara: Dw i'n lico pasta, y carbonara i fi.

James: Mae'n gas gyda fi basta. Sgampi a sglodion i fi.

Marged: Sgampi? Dw i ddim yn hoffi pysgod o gwbl. Mae'n well gyda fi gyw iâr.

James: Mae cyri cyw iâr neu salad cyw iâr.

Marged: Ie. Salad cyw iâr.

Sara: Beth am Steffan? O! Dyma fe.

Steffan: Deiet Coke i Marged. Gwin gwyn mawr i Sara...

Sara: O! Na! Sori, Steffan, dw i ddim yn lico gwin gwyn!

Steffan: Dim problem! Trip arall i'r bar! Peint o gwrw i ti James a Guinness i fi.

James: Diolch yn fawr, Steffan.

Marged: Bwyd, Steffan?

Steffan: Oes stecen ar y fwydlen?

Marged: Oes. Stecen a sglodion neu stecen mewn gwin coch.

Steffan: O! Mae'n well gyda fi'r stecen mewn gwin coch. Reit nôl i'r bar! Gwin coch, gwin coch, gwin coch.

Geirfa

diod- *a drink*
gwin- *wine*
cwrw- *beer*
bwydlen - *menu*
pysgod - *fish*
cyw iâr - *chicken*
nol - *back*

Sgript Fideo - *Video Script*

GAZ: Helo. Pwy wyt ti?

SIAN: Sian ydw i. Pwy wyt ti?

GAZ: Gaz.

SIAN: O.

GAZ: Dw i'n hoffi yfed cwrw. Wyt ti'n hoffi yfed cwrw?

SIAN: Nac ydw. Mae'n gas gyda fi gwrw. Mae'n well gyda fi yfed gwin.

GAZ: Wyt ti'n hoffi sglodion?

SIAN: Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi sglodion.

GAZ: Dw i'n hoffi sglodion...yn fawr!

SIAN: Mae'n well gyda fi fwyd Eidalaidd.

GAZ: Dw i'n hoffi bwyd Eidalaidd hefyd. Dw i wrth fy modd gyda pizza!

SIAN: O. Wyt ti'n hoffi mynd i'r theatr?

GAZ: Na. Dw i ddim yn hoffi mynd i'r theatr. Mae'n well gyda fi fynd i'r sinema. Dw i'n hoffi ffilmiau am y rhyfel.

SIAN: Wyt ti'n hoffi cerddoriaeth?

GAZ: Ydw. Dw i wrth fy modd gyda cherddoriaeth.

SIAN: A fi! Dw i wrth fy modd gyda cherddoriaeth hefyd. Dw i'n hoffi opera.

GAZ: Dw i'n hoffi roc trwm.

SIAN: Dw i'n hoffi ti.

GAZ: Dw i'n hoffi ti hefyd!

Geirfa

yfed - *to drink*
cwrw - *beer*
gwin - *wine*
bwyd Eidalaidd - *Italian food*
rhyfel - *war*
cerddoriaeth - *music*
roc trwm - *heavy rock*
wrth fy modd - *I really like*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*

Enw	**Diod**	**Bwyd**
Steffan	Peint o Guinness	Stecen mewn gwin coch
Marged	Deiet Coke	Salad cyw iâr
James	Peint o gwrw	Sgampi a sglodion
Sara	Gwin coch	Pasta Carbonara

Tasg fideo / *Video task*

Pwy sy'n hoffi...?	Sian	Gaz
cwrw	✘	✓
gwin	✓	✘
sglodion	✘	✓
bwyd Eidalaidd	✓	✓
mynd i'r theatr	✓	✘
mynd i'r sinema	✘	✓
opera	✓	✘
roc trwm	✘	✓